# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 27 Hydref 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Alun Ffred Jones (Caernarfon):** A wnaiff y Gweinidog restru unrhyw gyfarfodydd y mae wedi'u cael yn ei rôl fel Gweinidog Gwyddoniaeth gyda chyrff allanol ers i'r rôl honno gael ei ffurfio. (WAQ48357)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa refeniw neu gostau sy'n deillio ar hyn o bryd o gynllun Menter Cyllid Preifat Rhodfa Bute. (WAQ48359)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun Menter Cyllid Preifat Rhodfa Bute. (WAQ48358)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa bartneriaid sy'n gysylltiedig â chydgasglu TGCh yn y sector cyhoeddus, a sut maent yn gysylltiedig. (WAQ48360)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru'r manteision a'r peryglon posibl sy'n gysylltiedig â chydgasglu TGCh yn y sector cyhoeddus. (WAQ48355)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydgasglu TGCh yn y sector cyhoeddus. (WAQ48356)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes Hepatolegydd yng Nghymru. (WAQ48352)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa drefniadau y mae'r Gweinidog wedi'u sefydlu gyda chyflenwyr ocsigen blaenorol i'r GIG ynghylch cost dychwelyd silindrau. (WAQ48353)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Am faint y bydd yn rhaid i unigolyn ddisgwyl am driniaeth ailsefydlu ymhob un o awdurdodau lleol Cymru. (WAQ48354)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru wedi cwblhau'r datganiadau treth diwedd blwyddyn ar

gyfer gweithwyr ac a yw pob gweithiwr wedi derbyn y ffurflenni P60 neu P45 sy'n gysylltiedig â hyn. (WAQ48361)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddechrau sgrinio babanod newydd-anedig ar gyfer anhwylderau gwaed y crymangelloedd. (WAQ48362)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi sut y bydd costau’r flwyddyn ariannol ar gyfer yr Agenda ar gyfer Newid yn cael eu hariannu’n llawn gan Gyllideb Ddrafft 2007-2008. (WAQ48366)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi sut y bydd costau’r flwyddyn ariannol ar gyfer contract y meddygon ymgynghorol yn cael eu hariannu’n llawn gan Gyllideb Ddrafft 2007-2008. (WAQ48365)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi sut y bydd costau’r flwyddyn ariannol ar gyfer y contract meddygon teulu yn cael eu hariannu’n llawn gan Gyllideb Ddrafft 2007-2008. (WAQ48363)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi sut y bydd costau’r flwyddyn ariannol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu yn cael eu hariannu’n llawn gan Gyllideb Ddrafft 2007-2008. (WAQ48364)